



# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

2009 mccc 2

Nodiadau Esboniadol

# Local Government (Wales) Measure 2009

2009 nawm 2

Explanatory Notes

£9.50

# **MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2009**

---

## **NODIADAU ESBONIADOL**

### **CYFLWYNIAD**

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a basiwyd gan Gyulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ebrill 2009 ac a gymeradwywyd gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor ar 10 Mehefin 2009. Cawsant eu paratoi gan Adran Cyfiander Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn iddynt fod yn gymorth i'r sawl sy'n darllen y Mesur arfaethedig. Dylid darllen y Nodiadau ar y cyd â'r Mesur, ond nid ydynt yn rhan ohono.

### **SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU**

#### **Adran 1 - ystyr "awdurdod gwella Cymreig"**

2. Mae'r adran hon yn nodi'r cyrff sy'n 'awdurdodau gwella Cymreig' at ddibenion y Mesur: cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru, awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru; ac awdurdod tân ac achub yng Nghymru. Yn y Nodiadau Esboniadol hyn, mae i gyfeiriadau at "awdurdod / awdurdodau" yr un ystyr ag sydd i awdurdod / awdurdodau gwella Cymreig, oni nodir yn wahanol.

#### **Adran 2 - dyletswydd gyffredinol mewn perthynas â gwella**

3. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gwella Cymreig wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer eu swyddogaethau ('y ddyletswydd gyffredinol').
4. Wrth wneud hynny, rhaid i awdurdod gwella Cymreig roi sylw penodol i'r angen i wella'r ffordd y mae ei swyddogaethau'n cael eu harfer o ran: effeithiolrwydd strategol; ansawdd gwasanaethau; argaeledd gwasanaethau; tegwch; cynaliadwyedd; effeithlonrwydd; ac arloesi. Mae'r termau hyn wedi'u diffinio yn adran 4 o'r Mesur.

#### **Adran 3 - amcanion gwella**

5. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gwella Cymreig osod amcanion gwella iddo'i hun a hynny ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Amcanion yw'r rhain ar gyfer gwella'r modd y mae swyddogaethau penodol i'r awdurdod yn cael eu harfer.

# **LOCAL GOVERNMENT (WALES) MEASURE 2009**

---

## **EXPLANATORY NOTES**

### **INTRODUCTION**

1. These Explanatory Notes are for the Local Government (Wales) Measure 2009 which was passed by the National Assembly for Wales on 28 April 2009 and approved by Her Majesty in Council on 10 June 2009. They have been prepared by the Department for Social Justice and Local Government of the Welsh Assembly Government to assist the reader of the proposed Measure. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Measure but are not part of it.

### **COMMENTARY ON SECTIONS**

#### **Section 1 - meaning of “Welsh improvement authority”**

2. This section sets out the bodies which are ‘Welsh improvement authorities’ for the purposes of this Measure: a county council or a county borough council in Wales, a National Park authority for a National Park in Wales; and a fire and rescue authority in Wales. In these explanatory notes, references to “authority / authorities” have the same meaning as Welsh improvement authority/authorities, unless the contrary is stated.

#### **Section 2 - general duty in relation to improvement**

3. Subsection (1) requires Welsh improvement authorities to make arrangements to secure continuous improvement in the exercise of their functions (‘the general duty’).
4. In doing so, a Welsh improvement authority must have regard in particular to the need to improve the exercise of its functions in terms of: strategic effectiveness; service quality; service availability; fairness; sustainability; efficiency; and innovation. These terms are defined in section 4 of the Measure.

#### **Section 3 - improvement objectives**

5. Subsection (1) requires a Welsh improvement authority, for each financial year, to set itself improvement objectives. These are objectives for improving the exercise of particular functions of the authority.
6. Subsection (2) provides that a Welsh improvement authority must have in place arrangements to achieve those objectives.

6. Mae is-adran (2) yn darparu bod rhaid i awdurdod gwella Cymreig fod wedi gwneud trefniadau i wireddu'r amcanion hyn.
7. Mae is-adran (3) yn pennu bod rhaid i awdurdod ffurfio pob amcan gwella er mwyn sicrhau gwelliant mewn un o leiaf o'r agweddau ar wella sydd wedi'u rhestru yn yr is-adran honno ac sydd wedi'u diffinio yn adran 4 o'r Mesur.

#### **Adran 4 - agweddau ar wella**

8. Mae adran 4 yn diffinio'r agweddau ar wella a gynhwysir yn y Rhan hon o'r Mesur. Mae Adran 4 yn caniatáu i awdurdodau gwella Cymreig ddangos gwelliant mewn amryw o ffyrdd gwahanol. Mae'r adran hon yn creu nifer o wahanol agweddau ar wella a gaiff eu defnyddio i asesu a fu gwelliant ai peidio. Mae rhai agweddau'n ymwneud â gwella darpariaeth gwasanaethau yn unig, er enghraifft bydd awdurdod lleol yn dangos gwelliant o ran 'argaeledd gwasanaethau' os bydd yn gwella argaeledd ei wasanaethau. O'i gyferbynnu, byddai gwelliant o ran 'cynaliadwyedd' yn cael ei ddangos petai unrhyw rai o swyddogaethau awdurdod lleol (ac nid y rheini sydd ynghlwm wrth ddarparu gwasanaeth yn unig) yn cael eu cyflawni mewn modd sy'n cyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy yn ardal yr awdurdod.
9. Bydd esboniad ar y diffiniadau a sut y byddant yn gweithio yn ymarferol, megis enghreifftiau i'w darlunio ac o dan ba amgylchiadau y gallai'r awdurdodau roi'r agweddau ar wella ar waith, yn cael eu nodi mewn canllawiau.

#### **Adran 5 - Ymgynghori ynghylch yr amcanion gwella**

10. Er mwyn bodloni'r ddyletswydd gyffredinol o dan adran 2 a phennu amcanion gwella, mae adran 5 yn gosod dyletswydd ar awdurdod gwella Cymreig i ymgynghori â chynrychiolwyr pobl sy'n perthyn i gategorïau penodedig:
  - trigolion ardal yr awdurdod;
  - y rhai sy'n talu ardrethi annomestig;
  - defnyddwyr gwasanaethau (gan gynnwys felly y rhai nad ydynt yn drigolion megis cymudwyr); a
  - chynrychiolwyr yr ymddengys i'r awdurdod bod ganddynt fuddiant.

#### **Adran 6 - y ddyletswydd gyffredinol, amcanion gwella ac ymgynghori: canllawiau**

11. Wrth gyflawni'r dyletswyddau o dan adrannau 2(1), 3(1), 3(2) a 5, rhaid i awdurdod gwella Cymreig roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

#### **Adran 7 - gweddau ar wella: diwygio**

12. Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn a fydd yn diwygio unrhyw rai o'r agweddau ar wella sydd wedi'u nodi yn adran 4(2), neu eu dileu neu ychwanegu atynt. Yn ogystal â hynny, cyn gwneud gorchymyn o'r fath, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unigolion yr ymddengys iddynt

7. Subsection (3) specifies that an authority must frame each improvement objective so as to bring about improvement in at least one of the aspects of improvement listed in that subsection and defined in section 4 of the Measure.

#### **Section 4 - aspects of improvement**

8. Section 4 defines the aspects of improvement which feature in this Part of the Measure. Section 4 allows Welsh improvement authorities to demonstrate improvement in a variety of different ways. The section creates a number of aspects of improvement which are used to assess whether improvement has taken place. Some aspects relate solely to improvement in the provision of services, for example a local authority demonstrates improvement in terms of 'service availability' if it improves the availability of its services. By contrast, improvement in terms of 'sustainability' would be demonstrated if any of a local authority's functions (and not just those which involve the provision of a service) are exercised in a way which contributes towards the achievement of sustainable development in the authority's area.
9. Explanation of the definitions and how they will operate in practice, such as illustrative examples and circumstances in which authorities might apply the aspects of improvement, will be set out in guidance.

#### **Section 5 - consultation about the general duty and improvement objectives**

10. For the purposes of fulfilling the general duty under section 2 and setting improvement objectives, section 5 places a duty on a Welsh improvement authority to consult with representatives of people falling within specified categories:
  - Residents in the authority's area;
  - those who pay non-domestic rates;
  - service-users (thus non-residents such as commuters); and
  - representatives who appears to the authority to have an interest.

#### **Section 6 - the general duty, improvement objectives and consultation: guidance**

11. In performing the duties under s2(1), s3(1), s3(2) and s5 a Welsh improvement authority must have regard to any guidance issued by the Welsh Ministers.

#### **Section 7 - aspects of improvement: amendment**

12. This section allows the Welsh Ministers to make an order to amend, remove or add to any of the aspects of improvement set out in section 4(2). In addition, before making such an order the Welsh Ministers are required to consult persons appearing to them to represent Welsh improvement authorities and other persons that they think fit.

eu bod yn cynrychioli awdurdodau gwella Cymreig ac unrhyw unigolyn arall o'r fath fel y gwelant yn dda.

### **Adran 8 - dangosyddion perfformiad a safonau perfformiad**

13. Mae adran 8 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi drwy orchymyn ffactorau mewn perfformiad (dangosyddion perfformiad) y caiff perfformiad awdurdod gwella Cymreig ei fesur yn eu herbyn. Hefyd caiff Gweinidogion Cymru bennu safonau perfformiad ar gyfer y dangosyddion perfformiad y maent yn eu gosod. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi disgrisiwn i Weinidogion Cymru bennu, drwy orchymyn, ddangosyddion perfformiad a safonau perfformiad gwahanol i awdurdodau gwahanol neu i fathau gwahanol o awdurdodau.
14. Wrth bennu dangosyddion a safonau, ac wrth benderfynu a ddylid gwneud hynny gwneud hynny, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru anelu at hyrwyddo gwelliant yn y modd y mae'r awdurdod gwella Cymreig yn arfer ei swyddogaethau, ac yn benodol mae'n rhaid iddynt adlewyrchu'r angen am welliant wrth i bob un o'r swyddogaethau hynny gael eu harfer yn nhermau pob un o'r agweddau ar wella sydd wedi'u nodi yn adran 4. Hefyd, cyn pennu dangosyddion perfformiad neu safonau perfformiad, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag Archwilydd Cyffredinol Cymru, cynrychiolwyr yr awdurdodau gwella Cymreig ac eraill fel y gwelant yn dda.
15. Mae is-adran (7) yn pennu bod rhaid i awdurdod gwella Cymreig wneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau fel bod unrhyw safonau perfformiad yn cael eu cyrraedd.

### **Adran 9- pwerau cydlafurio**

16. Mae'r adran hon yn rhoi pwerau bras i awdurdodau gwella Cymreig i'w galluogi i gydlafurio â'i gilydd ac â chyrff eraill, er mwyn cyflawni'r dyletswyddau o dan adrannau 2(1), 3(2) ac 8(7) neu er mwyn hwyluso gwaith i gyflawni'r dyletswyddau hynny. Mae Adran 9 yn caniatáu i awdurdod gydlafurio ag awdurdod arall er mwyn hwyluso cyflawni dyletswyddau'r awdurdod arall, p'un ai y byddai hynny'n hwyluso cyflawni ei ddyletswyddau ei hun ai peidio.
17. Er bod y Mesur yn rhoi'r un pwerau i bob math o awdurdod sy'n dod o dan y Mesur, nid yw'n rhoi pŵer na gorfodaeth ar gyrff eraill i gydlafurio ag awdurdod gwella Cymreig. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd llawer o gyrff o'r fath yn gallu gwneud hynny o dan y pwerau sydd ganddynt eisoes. Mae'r adran hon yn sicrhau bod gan y tri math o awdurdodau gwella Cymreig bwerau cyfatebol.
18. Mae is-adran (3) yn darparu nad yw'r pwerau newydd hyn yn effeithio ar unrhyw rai o bwerau unrhyw awdurdod gwella Cymreig mewn deddfwriaeth arall.

## **Section 8 - performance indicators and standards**

13. Section 8 provides Welsh Ministers with a power to prescribe by order factors of performance (performance indicators) against which a Welsh improvement authority's performance will be measured. In addition Welsh Ministers may set performance standards in respect of the performance indicators set by them. This section also gives Welsh Ministers by order the discretion to specify different performance indicators and standards for different authorities or types of authorities.
14. In setting indicators and standards, and in deciding whether to do so, Welsh Ministers must aim to promote improvement of the exercise of the Welsh improvement authority's functions, and must in particular reflect the need to improve the exercise of those functions in terms of each of the aspects of improvement set out in s4. In addition, before specifying performance indicators or standards the Welsh Ministers must consult with the Auditor General for Wales, representatives of Welsh improvement authorities and others as they see fit.
15. Subsection (7) specifies that a Welsh improvement authority must make arrangements to exercise its functions so that any performance standards are met.

## **Section 9 - powers to collaborate etc**

16. This section confers on Welsh improvement authorities broad powers to enable them to collaborate with each other and with other bodies, for the purpose of discharging or facilitating the discharge of the duties under section 2(1), 3(2) and 8(7). Section 9 allows an authority to collaborate with another authority to facilitate the discharge of the other authority's duties, whether or not that would facilitate the discharge of its own duties.
17. Whilst the Measure confers the same powers on all types of authority covered by the Measure, it does not empower or compel other bodies to collaborate with a Welsh improvement authority. However, many such bodies may be able to do so under their existing powers. This section ensures that the three types of Welsh improvement authorities have equivalent powers.
18. Subsection (3) provides that these new powers do not affect any Welsh improvement authority's powers in other legislation.

## **Section 10 - fire and rescue authorities: powers of delegation**

19. Section 10 confers on fire and rescue authorities a power to delegate its functions. This power is linked to the power which local authorities and national park Authorities already have under section 101 of the Local Government Act 1972. Section 10 therefore ensures that fire and rescue authorities have the same power as the national park authorities and local authorities have under section 101 of the Local Government Act 1972 for the purpose of discharging or facilitating the discharge of the duties under section 2(1), 3(2) and 8(7).

### **Adran 10 - awdurdodau tân ac achub: pwerau dirprwyo.**

19. Mae adran 10 yn rhoi pŵer i ddirprwyo'u swyddogaethau i awdurdodau tân ac achub. Mae'r pŵer hwn yn gysylltiedig â'r pŵer sydd gan awdurdodau lleol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol eisoes o dan adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae adran 10 felly yn sicrhau bod gan yr awdurdodau tân ac achub yr un pŵer ag sydd gan yr awdurdodau Parciau Cenedlaethol a'r awdurdodau lleol o dan adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i gyflawni'r dyletswyddau o dan adrannau 2(1), 3(2) ac 8(7) neu i hwyluso gwaith i gyflawni'r dyletswyddau hynny.

### **Adran 11 - ystyr "pwerau cydlafurio"**

20. Mae adran 11 yn nodi'r hyn a olygir wrth 'bwerau cydlafurio' awdurdod gwella Cymreig, sy'n cynnwys pwerau mewn deddfwriaeth arall a'r rhai sy'n cael eu rhoi gan y Mesur.

### **Adran 12 - dyletswyddau mewn perthynas â phwerau cydlafurio**

21. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gwella Cymreig ystyried a fyddai'r pwerau cydlafurio yn ei helpu i gyflawni'r dyletswyddau o dan adrannau 2(1), 3(2) ac 8(7). Os yw'n credu y byddent yn helpu, yna mae'n rhaid i'r awdurdod gwella Cymreig geisio arfer y pwerau cydlafurio.

### **Adran 13 - casglu gwybodaeth sy'n gysylltiedig â pherfformiad**

22. Mae Adran 13 yn cyfeirio at gasglu gwybodaeth am berfformiad. Yn ystod pob blwyddyn ariannol, rhaid i'r awdurdod gwella Cymreig wneud trefniadau i gasglu gwybodaeth a fydd yn caniatáu iddo asesu ei berfformiad wrth wireddu ei amcanion gwella. Rhaid hefyd i'r awdurdod gwella Cymreig wneud trefniadau i gasglu gwybodaeth a fyddai'n caniatáu iddo fesur ei berfformiad yn erbyn dangosyddion neu safonau perfformiad a bennid gan Weinidogion Cymru ac unrhyw ddangosyddion neu safonau eraill y byddai'n dewis eu defnyddio ('dangosyddion a safonau hunanosodedig').

### **Adran 14 - defnyddio gwybodaeth am berfformiad**

23. Mae adran 14 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gwella Cymreig ddefnyddio'r wybodaeth y mae'n ei chasglu o dan adran 13 i fesur ei berfformiad yn erbyn perfformiad blwyddyn flaenorol. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gwella Cymreig gymharu ei berfformiad cyn belled ag y bo'n ymarferol â pherfformiad awdurdodau gwella Cymreig eraill ac â pherfformiad awdurdodau cyhoeddus eraill.
24. Yn ychwanegol, mae'n rhaid i awdurdod gwella Cymreig ddefnyddio'r wybodaeth y mae'n ei chasglu i asesu a allai wella ar ei berfformiad, ac, ar sail hynny, rhaid iddo benderfynu ar gamau i'w cymryd i wella'i berfformiad wrth arfer ei swyddogaethau.



### **Section 11 - meaning of “powers of collaboration”**

20. Section 11 sets out what constitutes a Welsh Improvement authority’s ‘powers to collaborate’, which includes powers in other legislation and those conferred by the Measure.

### **Section 12 - duties in relation to powers of collaboration**

21. The section requires a Welsh improvement authority to consider whether the powers to collaborate would help it to discharge the duties under section 2(1), 3(2) and 8(7). If it thinks they would, then a Welsh improvement authority must seek to exercise the powers of collaboration.

### **Section 13 - collection of information related to performance**

22. Section 13 relates to the collection of information related to performance. During each financial year a Welsh improvement authority must make arrangements for the collection of information which will allow it to assess its performance in achieving its improvement objectives. The Welsh improvement authority must also make arrangements to collect information which would allow it to measure its performance against performance indicators or standards set by Welsh Ministers and any other indicators or standards which it chooses to use (‘self-imposed indicators and standards’).

### **Section 14 - use of performance information**

23. Section 14 requires a Welsh improvement authority to use the information it collects under section 13 to measure its performance against a previous year’s performance. It also requires a Welsh improvement authority to compare its performance so far as is practicable with the performance of other Welsh improvement authorities and other public authorities.
24. In addition, a Welsh improvement authority must use the information it collects to assess whether it could improve its performance, and, based on that, must decide on steps to take to improve its performance in exercising its functions.
25. Subsection (3) requires authorities to have regard to any guidance issued by the Welsh Ministers on their duties under sections 13 and 14.

### **Section 15 - improvement planning and publication of improvement information**

26. Section 15 requires a Welsh improvement authority to make arrangements to publish specified information relating to its performance.

25. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru am eu dyletswyddau o dan adrannau 13 a 14.

#### **Adran 15 - cynllunio gwelliannau a chyhoeddi gwybodaeth am welliannau**

26. Mae adran 15 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gwella Cymreig wneud trefniadau i gyhoeddi gwybodaeth benodedig am ei berfformiad.
27. Mae'r wybodaeth sydd i'w chyhoeddi ar gyfer blwyddyn ariannol yn cynnwys:
- asesiad yr awdurdod o sut mae wedi perfformio mewn blwyddyn ariannol o ran cyflawni ei ddyletswydd o dan adran 2;
  - asesiad yr awdurdod o sut mae wedi perfformio mewn blwyddyn ariannol o ran gwireddu ei amcanion gwella;
  - asesiad yr awdurdod o sut mae wedi perfformio mewn blwyddyn ariannol o ran bodloni dangosyddion a safonau perfformiad lleol a bennwyd gan Weinidogion Cymru a dangosyddion a safonau hunanosodedig;
  - asesiad yr awdurdod o sut mae wedi perfformio mewn blwyddyn ariannol o'i gymharu â pherfformiad blwyddyn flaenorol;
  - asesiad yr awdurdod o sut mae wedi perfformio mewn blwyddyn ariannol ac mewn blynyddoedd blaenorol o'i gymharu â pherfformiad awdurdod gwella Cymreig arall;
  - manylion sut mae wedi arfer ei bwerau cydlafurio; a
  - manylion yr wybodaeth a gasglwyd o dan adran 13 a'r hyn y mae'r awdurdod wedi'i wneud i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 14.
28. Dylai'r wybodaeth gael ei chyhoeddi gan yr awdurdod perthnasol cyn 31 Hydref yn union ar ôl y flwyddyn ariannol y mae'n cyfeirio ati.
29. O dan yr adran hon mae'n rhaid i awdurdod gwella Cymreig sicrhau ei fod yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw adroddiad sy'n ymwneud ag arolygiad arbennig.
30. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gwella Cymreig gyhoeddi 'cynllun gwella' sy'n nodi ei gynlluniau ar gyfer cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 2(1), 3(2) ac 8(7) ar gyfer blwyddyn ariannol ac, os yw'n briodol, ar gyfer blynyddoedd dilynol. Rhaid iddo gael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n cyfeirio ati.
31. Mae adran 15(8) yn darparu bod rhaid i awdurdod gwella Cymreig roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru am yr adran hon.

#### **Adran 16 - ystyr "rheoleiddwyr perthnasol" a "swyddogaethau perthnasol"**

32. Mae adran 16 yn rhestru'r rheoleiddwyr perthnasol a'u swyddogaethau perthnasol. Mae'n rhoi pŵer hefyd i Weinidogion Cymru newid y rhestr drwy orchymyn.
33. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag awdurdodau gwella Cymreig, Archwilydd Cyffredinol Cymru a chyrrff rheoleiddio perthnasol cyn defnyddio'r pŵer i wneud gorchymyn.

27. The information to be published for a financial year includes:
- the authority’s assessment of how it has performed in a financial year in relation to discharging its duty under section 2;
  - the authority’s assessment of how it has performed in a financial year in relation to achieving its improvement objectives;
  - the authority’s assessment of how it has performed in a financial year in relation to meeting local performance indicators and standards set by the Welsh Ministers and self imposed indicators and standards;
  - the authority’s assessment of how it has performed in a financial year in comparison with a previous year’s performance;
  - the authority’s assessment of how it has performed in a financial year and in previous years in relation to the performance of another Welsh improvement authority.
  - details of the ways in which it has exercised its powers of collaboration; and
  - details of the information collected under section 13 and what the authority has done to discharge its duties under section 14.
28. The information should be published before 31 October immediately following the financial year to which it relates by the relevant authority.
29. Under this section a Welsh improvement authority must ensure they publish a summary of any report relating to a special inspection.
30. This section also requires a Welsh improvement authority to publish an ‘improvement plan’ which sets out its plans for discharging its duties under sections 2(1), 3(2) and 8(7) for a financial year and, if appropriate, subsequent years. This must be published as soon as practicable after the start of the financial year to which it relates.
31. Section 15(8) provides that a Welsh improvement authority must have regard to any guidance published by the Welsh Ministers in relation to this section.

### **Section 16 - meaning of “relevant regulators” and “relevant functions”**

32. Section 16 lists the relevant regulators and their relevant functions. It also provides the Welsh Ministers with a power to change that list by order.
33. Before using the order making power the Welsh Ministers must consult with Welsh improvement authorities, the Auditor General for Wales and relevant regulatory bodies.
34. It is possible that Welsh Ministers may use this power to add a regulator which has not yet come into being. The duty to consult would not work in such cases as Welsh Ministers cannot consult a body which does not exist. Subsection (6) deals with that by removing the duty to consult a new regulator in those circumstances.

34. Mae'n bosibl y gall Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer hwn i ychwanegu corff rheoleiddio nad yw'n bod eto. Ni fyddai'r ddyletswydd i ymgynghori yn gweithio o dan amgylchiadau o'r fath am na all Gweinidogion Cymru ymgynghori â chorff nad yw'n bod. Mae is-adran (6) yn delio ag achos o'r fath drwy ddiddymu'r ddyletswydd i ymgynghori â chorff rheoleiddio newydd o dan yr amgylchiadau hynny.

### **Adran 17 - gwybodaeth am welliannau a chynllunio ar gyfer gwella: archwilio**

35. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal archwiliad i asesu a yw awdurdod gwella Cymreig wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15 o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol ag unrhyw ganllawiau sydd wedi'u dyroddi gan Weinidogion Cymru o dan yr adran honno.

### **Adran 18 - asesiadau gwella**

36. Mae adran 18 yn gosod dyletswydd ar Archwilydd Cyffredinol Cymru i gynnal asesiad sy'n edrych ymlaen ac sy'n nodi i ba raddau y mae awdurdod gwella Cymreig yn debyg o fodloni gofynion Rhan 1 o'r Mesur yn y flwyddyn honno. O dan yr adran hon, gall Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal asesiad sy'n cwmpasu mwy na blwyddyn os dymuna. Wrth gynnal yr asesiad, byddai disgwyl i'r Archwilydd Cyffredinol gymryd i ystyriaeth wybodaeth a dogfennau perthnasol a dderbyniwyd gan reoleiddwyr ac arolygwyr eraill o dan adran 33.

### **Adran 19 - adroddiadau archwilio ac adroddiadau asesu**

37. Mae adran 19 yn gosod dyletswydd ar Archwilydd Cyffredinol Cymru i gynhyrchu adroddiad neu adroddiadau ar bob awdurdod gwella Cymreig mewn perthynas â'i ddyletswyddau o dan adrannau 17 a 18.

Dylai'r adroddiad neu'r adroddiadau:

- ardystio bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal yr archwiliad o dan adran 17;
- datgan a yw'r Archwilydd Cyffredinol, o ganlyniad i'r archwiliad, yn credu bod yr awdurdod wddi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15 ac wedi gweithredu yn unol â'r canllawiau;
- ardystio bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal yr asesiad o dan adran 18;
- esbonio sut y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi defnyddio'r wybodaeth a dderbyniodd gan gyrff rheoleiddio eraill o dan adran 33 at ddibenion cynnal asesiad o'r gwelliant a wnaed gan awdurdod o dan adran 18;
- datgan a yw'r Archwilydd Cyffredinol, o ganlyniad i'r asesiad, yn credu bod yr awdurdod yn debyg o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Mesur hwn;
- argymell (os yw'n briodol) unrhyw gamau y dylai'r awdurdod eu cymryd er mewn cyflawni ei ddyletswyddau neu weithredu yn unol â'r canllawiau;
- argymell (os yw'n briodol) y dylai Gweinidogion Cymru roi cymorth o dan adran 29 neu gyfarwyddyd o dan adran 30; a
- datgan a yw'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cynnal arolygiad arbennig o dan adran 22.

### **Section 17 - improvement information and planning: audit**

35. This section requires the Auditor General for Wales to carry out an audit to assess whether a Welsh improvement authority has discharged its duties under s15 of the Measure and acted in accordance with any guidance issued by the Welsh Ministers under that section.

### **Section 18 - improvement assessments**

36. Section 18 places a duty on the Auditor General for Wales to carry out a forward-looking assessment of how far a Welsh improvement authority is likely to meet the requirements of Part 1 of the Measure in that year. Under this section the Auditor General for Wales will be able to carry out an assessment covering more than one year if s/he wishes. In undertaking the assessment, the Auditor General would be expected to take into account relevant information and documents received from other regulators and inspectors under s33.

### **Section 19 - audit and assessment reports**

37. Section 19 places a duty on the Auditor General for Wales to produce a report or reports for each Welsh improvement authority in relation to his duties under sections 17 and 18.

The report or reports should:

- certify the Auditor General has carried out the audit under section 17;
  - state whether as a result of the audit he/she believes that the authority has discharged its duties under section 15 and acted in accordance with guidance;
  - certify that the Auditor General has carried out the assessment under section 18;
  - explain how the Auditor General has used the information he/she has received from other regulators under section 33 for the purpose of producing an authority's improvement assessment under section 18;
  - state whether as result of the assessment he/she believes that the authority is likely to comply with the requirements of Part 1 of this Measure;
  - recommend (if appropriate) any action the authority should undertake to discharge its duties or to act in accordance with guidance;
  - recommend (if appropriate) that the Welsh Ministers provide support under section 29 or give a direction under section 30; and
  - state whether the Auditor General is minded to undertake a special inspection under section 22.
38. Copies of the reports should be sent to the relevant Welsh improvement authority and Welsh Ministers by 30 November each year. Welsh Ministers may change this date by order (subsection (3)).
39. In addition, subsection 4 deals with circumstances in which it would be unreasonable or impractical for the Auditor General to issue a report on a specific authority by 30 November or, where an order has been made under subsection (3), the date specified in the order . It provides the Auditor General for Wales with the flexibility to ask

38. Dylai copïau o'r adroddiadau gael eu hanfon at yr awdurdod gwella Cymreig perthnasol ac at Weinidogion Cymru erbyn 30 Tachwedd bob blwyddyn. Caiff Gweinidogion Cymru newid y dyddiad hwn drwy orchymyn (is-adran (3)).
39. Yn ogystal â hynny, mae is-adran (4) yn delio â'r amgylchiadau hynny lle byddai'n afresymol neu'n anymarferol i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi adroddiad ar awdurdod penodol erbyn 30 Tachwedd neu, lle y gwnaed gorchymyn o dan is-adran (3), erbyn y dyddiad a bennwyd yn y gorchymyn. Mae'n rhoi i Archwilydd Cyffredinol Cymru yr hyblygrwydd i ofyn i Weinidogion Cymru am estyniad i gwblhau'r adroddiadau archwilio ac asesu ar gyfer un o'r awdurdodau a enwyd neu ragor (heb fod angen gorchymyn).
40. Caiff yr adroddiad neu'r adroddiadau o dan adran 19 gynnwys argymhellion i'r awdurdod am sut y dylai gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon a'r hyn y dylai ei wneud i weithredu yn unol â'r canllawiau.

#### **Adran 20 – Ymateb i adroddiadau adran 19**

41. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod ymateb i adroddiad neu adroddiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan adran 19 os yw'n cynnwys:
  - argymhelliad i'r awdurdod am y camau y dylai eu cymryd i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon o'r Mesur ;
  - datganiad bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn bwriadu cynnal arolygiad arbennig; neu
  - argymhelliad i Weinidogion Cymru y dylent ddefnyddio'u pwerau cynorthwyo neu eu pwerau ymyrryd .
42. Rhaid hefyd i'r awdurdod baratoi datganiad sy'n nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd a'r amserlen ar gyfer gwneud hynny. Rhaid hefyd i'r awdurdod gynnwys y datganiad yn y cynllun gwella ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Os yw adroddiad yn cynnwys argymhelliad y dylai Gweinidogion Cymru defnyddio'r pŵer ymyrryd yn adran 29, rhaid hefyd i'r awdurdod anfon copi o'i ddatganiad at Weinidogion Cymru o fewn 30 diwrnod gwaith.

#### **Adran 21 - arolygiadau arbennig**

43. Mae adran 21 yn caniatáu i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal arolygiad arbennig o awdurdod gwella Cymreig.
44. Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal arolygiad o'r fath os yw'r Archwilydd Cyffredinol neu unrhyw rai o'r rheoleiddwyr perthnasol yn credu y gallai awdurdod perthnasol fethu cydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon.
45. Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn penderfynu cynnal arolygiad arbennig.

Welsh Ministers for an extension to complete the audit and assessment reports for one or more named authorities (without the need of an order).

40. The report or reports under section 19 may include recommendations to the authority about how it should comply with the requirements of this part and what it should do to act in accordance with guidance.

### **Section 20 - response to section 19 reports**

41. This section requires an authority to respond to a report or reports from the Auditor General for Wales under s19 if it contains:
  - a recommendation to the authority as to the action it should take to comply with the requirements of this Part of the Measure;
  - a statement that the Auditor General for Wales intends to undertake a special inspection; or
  - a recommendation to the Welsh Ministers to use their support or intervention powers.
42. The authority must prepare a statement setting out the actions that the authority proposes to take and the timetable for doing so. The authority must also include the statement in the improvement plan for the next financial year. Where a report includes a recommendation to the Welsh Ministers that they use the power of intervention in section 29, the authority must also send a copy of its statement to Welsh Ministers within 30 working days.

### **Section 21 - special inspections**

43. Section 21 permits the Auditor General for Wales to conduct a special inspection of a Welsh improvement authority.
44. The Auditor General for Wales may conduct such an inspection where the Auditor General or any of the relevant regulators believe that a relevant authority may fail to comply with the requirements of this part.
45. The Auditor General for Wales must consult the Welsh Ministers before making his/her decision to conduct a special inspection
46. Subsection (4) allows the Welsh Ministers to direct the Auditor General for Wales to carry out a special inspection, but before doing so they must consult the Auditor General for Wales.

### **Section 22 - reports of special inspections**

47. Section 22 requires the Auditor General for Wales to produce a report for each special inspection he/she carries out. The Auditor General for Wales must mention in the report if he/she believes as a result of the special inspection that the Welsh improvement authority is failing to comply with the requirements of Part 1 of the

46. Mae is-adran (4) yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal arolygiad arbennig, ond cyn gwneud hynny mae'n rhaid iddynt ymgynghori ag Archwilydd Cyffredinol Cymru.

#### **Adran 22 - adroddiadau am arolygiadau arbennig**

47. Mae adran 22 yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynhyrchu adroddiad ar bob arolygiad arbennig y bydd yn ei gynnal. Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru grybwyll yn yr adroddiad a yw'n credu o ganlyniad i'r arolygiad arbennig fod yr awdurdod gwella Cymreig yn methu â chydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Mesur. Mae hefyd yn cael argymhell y dylai Gweinidogion Cymru ddefnyddio'u pwerau cynorthwyo neu eu pwerau cyfarwyddo yn adrannau 28-29 o'r Mesur.
48. Dylai copi o'r adroddiad gael ei anfon at yr awdurdod gwella Cymreig a arolygwyd ac at Weinidogion Cymru.
49. Mae adran 22 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru anfon adroddiadau yn ymwneud â swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â budd-daliadau at yr Ysgrifennydd Gwladol (dros Waith a Phensiynau).

#### **Adran 23 - cydlynu archwiliad etc**

50. Mae adran 23 yn gosod dyletswydd ar yr holl reoleiddwyr perthnasol i roi sylw i gydlynu wrth arfer swyddogaethau rheoleiddio. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol Cymru ymgynghori â'r rheoleiddwyr perthnasol a llunio amserlen ar gyfer rheoleiddio ac arolygu pob awdurdod. Yna rhaid i'r holl reoleiddwyr perthnasol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru gymryd pob cam rhesymol i gadw at yr amserlen.

#### **Adran 24 - adroddiadau gwella blynyddol**

51. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynhyrchu a chyhoeddi bob blwyddyn adroddiad gwella blynyddol ar gyfer pob awdurdod gwella Cymreig. Rhaid i'r adroddiad gynnwys crynodeb o ganlyniadau unrhyw adroddiad a ddyroddwyd o dan adrannau 19 a 22 o'r Mesur. Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru ystyried yng ngoleuni'r adroddiad a ddylid:
- argymhell i reolydd perthnasol sut y dylai arfer ei swyddogaethau;
  - argymhell y dylai Gweinidogion Cymru arfer eu pwerau o dan adran 28 ac adran 29; neu
  - arfer unrhyw rai o'i swyddogaethau mewn perthynas â'r awdurdod.

#### **Adran 25 - datganiad o arfer**

52. O dan adran 25 mae'n rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynhyrchu datganiad sy'n nodi sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau o dan adrannau 17, 18, 19, 23 a



Measure. It may also recommend that the Welsh Ministers use their support or direction powers in sections 28-29 of the Measure.

48. A copy of the report should be sent to the inspected Welsh improvement authority and to the Welsh Ministers.
49. Section 22 also requires the Auditor General for Wales to send reports which relate to local authorities' benefit functions to the Secretary of State for Work and Pensions.

### **Section 23 - co-ordination of audit etc**

50. Section 23 places a duty on all relevant regulators to have regard to the need for co-ordination in the exercise of regulatory functions. It also requires the Auditor General for Wales to consult the relevant regulators and to draw up a timetable for the regulation and inspection of each authority. All relevant regulators and the Auditor General for Wales must then take all reasonable steps to adhere to the timetable.

### **Section 24 - annual improvement reports**

51. This section requires the Auditor General for Wales to produce and publish each year an annual improvement report for each Welsh improvement authority. The report must contain a summary of the results of any report issued under sections 19 and 22 of the Measure. The Auditor General for Wales must consider in light of the report whether to:
  - recommend to a relevant regulator how it should exercise its functions;
  - make a recommendation that the Welsh Ministers exercise their powers under section 28 and section 29; or
  - exercise any of his/her functions in relation to the author.

### **Section 25 - statement of practice**

52. Under section 25 the Auditor General for Wales must produce a statement which sets out how he/she will carry out his/her functions under sections, 17, 18, 19, 23 and 24 of the Measure. The statement should be kept under review and must be approved by the Welsh Ministers before being published and before any revisions to it are published.

### **Section 26 - inspectors' powers and duties**

53. Section 26 sets out the powers and duties of an inspector when carrying out an audit under section 17, an assessment under section 18 or a special inspection under section 21 of the Measure. It grants the inspector rights of access to premises and documents and is similar to those enjoyed by the Auditor General for Wales under section 11 of the Local Government Act 1999.

24 o'r Mesur. Dylai'r datganiad gael ei adolygu'n barhaus a rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru cyn cael ei gyhoeddi a chyn i unrhyw ddiwygiadau iddo gael eu cyhoeddi.

### **Adran 26 - pwerau a dyletswyddau arolygwyr**

53. Mae adran 26 yn nodi pwerau a dyletswyddau arolygydd wrth gynnal archwiliad o dan adran 17, asesiad o dan adran 18 neu arolygiad arbennig o dan adran 21 o'r Mesur. Mae'n rhoi hawliau i'r arolygydd fynd i fangreoedd a gweld dogfennau, sef hawliau sy'n debyg i'r rhai sydd gan yr Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan adran 11 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999.

### **Adran 27 – ffioedd**

54. Mae adran 27 yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru osod graddfa neu raddfeydd ffioedd am gynnal archwiliadau, asesiadau ac arolygiadau arbennig. Bydd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ddisgresiwn i godi ffi sy'n wahanol i'r raddfa osod os bydd y gwaith ar gyfer archwiliad, asesiad neu arolygiad arbennig yn fwy neu'n llai na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Cyn pennu graddfa ffioedd, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru ymgynghori â Gweinidogion Cymru a chynrychiolwyr awdurdodau gwella Cymreig.
55. Mae'r adran hon hefyd yn sicrhau bod y ffioedd y bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn eu codi o dan y Mesur hwn yn cael eu trin yr un fath â'r ffioedd y bydd yn eu codi at ddibenion eraill.

### **Adran 28 - gweinidogion Cymru: cymorth i awdurdodau gwella Cymreig**

56. Mae adran 28 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud unrhyw beth y maent yn credu ei fod yn debyg o helpu awdurdod gwella Cymreig i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon o'r Mesur. Un bras yw'r pŵer hwn am ei bod yn amhosibl pennu'n fanwl-gywir holl ffurfiau posibl cymorth o'r fath. Er hynny, nid yw Gweinidogion Cymru yn cael defnyddio'r pŵer er mwyn cyfarwyddo awdurdod na neb arall: i wneud hynny, byddai angen iddynt ddefnyddio'r pwerau yn adran 29, sef pwerau sy'n destun amodau. O dan yr adran hon mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r awdurdod gwella Cymreig perthnasol cyn rhoi cymorth oni bai y bydd yr awdurdod perthnasol wedi gofyn am gymorth o'r fath. Mae Adran 28 hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â phobl yr ymddengys eu bod yn 'rhanddeiliaid allweddol' yr effeithir arnynt o ganlyniad i arfer y pwerau yn is-adran (1).

## **Section 27 - fees**

54. Section 27 requires the Auditor General for Wales to set a scale or scales of fees to carry out audits, assessments and special inspections. The Auditor General for Wales will have discretion to charge a fee which departs from the set scale if the work in relation to an audit, assessment or inspection is substantially more or less than originally envisaged. Before setting a scale of fees, the Auditor General for Wales must consult the Welsh Ministers and representatives of Welsh improvement authorities.
55. This section also ensures that Auditor General for Wales' fees charged under this Measure are treated in the same way as fees charged by him/her for other purposes.

## **Section 28 - Welsh Ministers: support for Welsh improvement authorities**

56. Section 28 provides the Welsh Ministers with a power to do anything they consider likely to assist a Welsh improvement authority to comply with the requirements of this part of the Measure. This power is broad as it is impossible to specify precisely all of the forms that such support might take. However, the Welsh Ministers cannot use it to direct an authority or anyone else: for that, they would need to use the powers in s29, which are subject to pre-conditions. Under this section Welsh Ministers are required to consult the relevant Welsh improvement authority before providing support unless the relevant authority has asked for such support. Section 28 also requires Welsh Ministers to consult persons appearing to be "key stakeholders" affected by the exercise of the power in subsection (1).

## **Section 29 - Welsh Ministers: powers of direction etc**

57. Section 29 contains powers for the Welsh Ministers to intervene in and direct a local authority which is failing, or is at risk of failing to comply with the Measure. This power may only be exercised by them if:
- the Welsh improvement authority has been the subject of support under s28, but that has not rectified the problem; or
  - the Welsh improvement authority is failing or likely to fail to comply with the requirement of this part of the Measure and the situation is so urgent and/or serious as to preclude an offer of support.
  - the Welsh improvement authority is failing or likely to fail to comply with the requirement of this part of the Measure, the Welsh Minister have decided that they wish to exercise the power of support under section 28, but it cannot be exercised because the authority has failed to co-operate with the Welsh Ministers.
58. The options open to the Welsh Ministers are then as set out in subsections (2) to (6). These are similar to the existing powers in s15 of the Local Government Act 1999. However, the power goes beyond the power of the Secretary of State in the Local Government Act 1999 because it provides that the Welsh Ministers may direct an authority to collaborate with another authority (subsection (2c)).

## **Adran 29 - gweinidogion Cymru: pwerau cyfarwyddo etc**

57. Mae adran 29 yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd mewn awdurdod lleol sy'n methu â chydymffurfio â'r Mesur neu sydd mewn perygl o wneud hynny, a rhoi cyfarwyddiadau iddo. Dim ond o dan yr amodau canlynol y caniateir i'r pŵer hwn gael ei arfer:
- os yw'r awdurdod gwella Cymreig wedi cael cymorth o dan adran 28, ond bod hynny heb gywiro'r broblem; neu
  - os yw'r awdurdod gwella Cymreig yn methu neu'n debyg o fethu â chydymffurfio â gofynion y rhan hon o'r Mesur a bod brys y sefyllfa a/neu ddifrifoldeb y sefyllfa yn atal cymorth rhag cael ei gynnig;
  - os yw'r awdurdod gwella Cymreig yn methu neu'n debyg o fethu cydymffurfio â gofynion y rhan hon o'r Mesur, os yw Gweinidogion Cymru wedi penderfynu ei bod yn dymuno arfer y pŵer cynorthwyo o dan adran 28, ond na ellir ei arfer am fod yr awdurdod wedi methu â chydymffurfio â Gweinidogion Cymru
58. Yna mae'r dewisiadau sy'n agored i Weinidogion Cymru fel y maent wedi'u nodi yn isadrannau (2) i (6). Mae'r rhain yn debyg i'r pwerau presennol yn adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999. Serch hynny, mae'r pŵer yn mynd y tu hwnt i bŵer yr Ysgrifennydd Gwladol yn Neddf Llywodraeth Leol 1999 a hynny am ei fod yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod i gydlafurio ag awdurdod arall (is-adran (2c)).

## **Adran 30 - pwerau cyfarwyddo: trefniadau cydlafurio**

59. Mae adran 30 yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod gwella Cymreig nad yw ei hun yn methu (nac mewn perygl o fethu) i gydlafurio ag un sy'n methu neu sydd mewn perygl o fethu. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r awdurdod cyntaf cyn rhoi'r cyfarwyddyd. Diben hyn yw sicrhau y byddai Gweinidogion Cymru yn cael cyfarwyddo awdurdod B i gydlafurio, pe gallai gwendid yn awdurdod A gael sylw drwy ei gael ei gydlafurio ag awdurdod B (a fyddai heb wendidau o'r fath), ond y byddai'n rhaid iddynt ymgynghori ag awdurdod B cyn rhoi unrhyw gyfarwyddyd.

## **Adran 31 - pŵer Gweinidogion Cymru i addasu deddfiadau a rhoi pwerau newydd**

60. Mae adran 31 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru (drwy orchymyn) wneud darpariaeth i addasu neu i atal deddfiadau sy'n gymwys i awdurdodau gwella Cymreig. Dim ond os ydynt wedi'u bodloni bod y deddfiad yn atal neu'n rhwystro awdurdod gwella Cymreig rhag cydymffurfio â darpariaethau Rhan 1 o'r Mesur y caiff Gweinidogion Cymru wneud hyn.
61. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer hefyd i roi unrhyw bŵer ychwanegol i awdurdod gwella Cymreig y maent yn credu ei fod yn angenrheidiol er mwyn hwyluso cydymffurfio â Rhan 1 o'r Mesur.
62. Wrth arfer pŵer a roddir iddo, rhaid i awdurdod gwella Cymreig gymryd i ystyriaeth unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

### **Section 30 - powers of direction: collaboration arrangements**

59. Section 30 permits the Welsh Ministers to direct a Welsh improvement authority which may not itself be failing (or be at risk of failing) to collaborate with one that is. The Welsh Ministers must consult that first authority before issuing the direction. This is to ensure that if a weakness in authority A could be addressed by it collaborating with authority B (which had no such weaknesses), then the Welsh Ministers could direct authority B to collaborate, but would have to consult authority B before issuing any direction.

### **Section 31 - power of Welsh Ministers to modify enactments and confer new powers**

60. Section 31 provides Welsh Ministers with a power (by order) to make provision to modify or exclude the application of enactments which apply to Welsh improvement authorities. The Welsh Ministers may do so only if they are satisfied that such an enactment prevents or obstructs a Welsh improvement authority from complying with the provisions of Part 1 of the Measure.
61. The Welsh Ministers also have a power to confer upon a Welsh improvement authority any additional power they consider necessary in order to facilitate compliance with Part 1 of the Measure.
62. In exercising a power conferred on them a Welsh improvement authority must take account of any guidance issued by Welsh Ministers.

### **Section 32 - orders under section 31: procedure**

63. Section 32 describes the procedures that the Welsh Ministers must follow in making an order under section 31. Unless such an order merely amends an existing order, the Welsh Ministers must consult such authorities or persons who appear to the Welsh Ministers to be representative of interest affected by their proposals. They must also lay a document before the National Assembly for Wales explaining their proposals for a minimum of 60 days (excluding periods when the Assembly is in recess) before the Assembly considers the draft order. These requirements are in addition to the order normally being subject to the affirmative procedure as required by section 50.

### **Section 33 - information sharing**

64. Section 33 creates a mutual duty on the Auditor General for Wales and on relevant regulators to supply each other with information which would assist them in discharging those of their functions described in subsection (4).

### **Adran 32 - gorchmynion o dan adran 31: y weithdrefn**

63. Mae adran 32 yn disgrifio'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu dilyn wrth wneud gorchmyn o dan adran 31. Oni bai bod gorchmyn o'r fath yn diwygio gorchmyn sydd eisoes yn bod a dim byd arall, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw awdurdodau neu bersonau y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli buddiannau y bydd eu cynigion yn effeithio arnynt. Mae'n rhaid hefyd iddynt osod dogfen gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru i esbonio'u cynigion am o leiaf 60 diwrnod (heb gynnwys cyfnodau pan fo'r Cynulliad ar doriad) cyn i'r Cynullid ystyried y gorchmyn drafft. Mae'r gofynion hyn yn ychwanegol at y rheidrwydd i'r gorchmyn fynd fel rheol drwy'r weithdrefn gadarnhaol yn unol â gofynion adran 50.

### **Adran 33 - rhannu gwybodaeth**

64. Mae adran 33 yn ei gwneud hi'n ddyletswydd o'r ddwy ochr i Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r cyrff rheoleiddio perthnasol roi i'w gilydd wybodaeth a fyddai'n eu cynorthwyo wrth gyflawni'r swyddogaethau hynny a ddisgrifir yn is-adran (4).

### **Adran 34 - y modd y mae gwybodaeth i'w defnyddio gan reoleiddwyr**

65. Mae'r modd y bydd gwybodaeth a gesglir gan y rheoleiddwyr perthnasol wrth arfer eu swyddogaethau perthnasol yn cael ei defnyddio wedi'i gyfyngu gan ddeddfwriaeth arall. Mae adran 34 yn caniatáu i'r rheoleiddwyr ddefnyddio unrhyw wybodaeth a dogfennau perthnasol a gyflwynir iddynt neu a sicrheir ganddynt er mwyn arfer eu swyddogaethau o dan y Mesur hwn.

### **Adran 35 - rhan 1: Dehongli**

66. Mae'r adran hon yn diffinio nifer o dermau sy'n cael eu defnyddio yn Rhan 1.

### **Adran 36 - cyllid**

67. Mae adran 36 yn diwygio adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999. Mae'r adran hon yn sicrhau y caiff arian Gweinidogion Cymru i Archwilydd Cyffredinol Cymru gymryd i ystyriaeth wariant sy'n codi o dan y Mesur hwn.

### **Adran 37 - cynllunio Cymunedol**

68. Mae adran 37 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gychwyn cynllun cymunedol i'w hardal, ei gynnal, ei hwyluso a chymryd rhan ynddo.

### **Section 34 - use of information by regulators**

65. The use of information which relevant regulators gather in the exercise of their relevant functions is restricted by other legislation. Section 34 allows regulators to use any relevant information and documents presented to or obtained by them for the purpose of exercising their functions under this Measure.

### **Section 35 - part 1: interpretation**

66. This section defines a number of terms used in Part 1

### **Section 36 - finance**

67. Section 36 amends section 33 of the Local Government Act 1999. This section ensures that the Welsh Ministers' funding of the Auditor General for Wales may take into account expenditure arising under this Measure.

### **Section 37 - community planning**

68. Section 37 places a duty on local authorities to initiate, maintain, facilitate and participate in community planning for their area.
69. The section defines community planning as a process by which a local authority and its community planning partners identify long-term objectives for improving the economic, social and environmental well-being of the local authority's area and also contribute to the achievement of sustainable development in the United Kingdom.
70. The definition of community planning also includes identifying actions to be performed and functions to be exercised for the purpose of meeting the long term objectives
71. Section 37 also places a duty on community planning partners to:
- participate in community planning;
  - assist the local authority in the discharge of the local authority's duties.

### **Section 38 - meaning of "community planning partners"**

72. Section 38 lists the public bodies who are defined under Part 2 of the Measure as 'community planning partners'. They are: community councils; fire and rescue authorities; Local Health Boards; NHS Trusts; National Park authorities; police authorities; and the chief constable of police force for a police authority area.
73. Subsection (1)(d) gives the Welsh Ministers a power by direction to specify which NHS Trusts are community planning partners of particular local authorities. This is necessary because NHS Trusts are not aligned to local authority boundaries.

69. Mae'r adran yn diffinio cynllunio cymunedol fel proses y mae awdurdod lleol a'i bartneriaid cynllunio cymunedol yn ei defnyddio i nodi amcanion hirdymor ar gyfer gwella llesiant economaidd, cymdeithasol ac economaidd ardal yr awdurdod lleol a hefyd i gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy yn y Deyrnas Unedig.
70. Mae'r diffiniad o gynllunio cymunedol hefyd yn cynnwys dod o hyd i'r camau sydd i'w cymryd a'r swyddogaethau sydd i'w harfer er mwyn gwireddu'r amcanion hirdymor.
71. Mae adran 37 hefyd yn gosod dyletswydd ar bartneriaid cynllunio cymunedol:
  - i gymryd rhan mewn cynlluniau cymunedol;
  - i helpu'r awdurdod lleol wrth gyflawni dyletswyddau'r awdurdod lleol.

### **Adran 38 - ystyr "partneriaid cynllunio cymunedol"**

72. Mae adran 38 yn rhestru'r cyrff cyhoeddus a ddiffinnir o dan Ran 2 o'r Mesur fel 'partneriaid cynllunio cymunedol', sef: cynghorau cymuned ; awdurdodau tân ac achub; Byrddau Iechyd Lleol; Ymddiriedolaethau GIG; awdurdodau Parciau Cenedlaethol; awdurdodau heddlu; a phrif gwnstabl heddlu ardal yr awdurdod heddlu.
73. Mae is-adran (1)(ch) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru bennu drwy gyfarwyddyd pa Ymddiriedolaethau GIG sy'n bartneriaid cynllunio cymunedol i awdurdodau lleol penodol. Mae angen gwneud hyn am nad yw ffiniau Ymddiriedolaethau GIG yn cydfynd â ffiniau'r awdurdodau lleol.
74. O dan adran 38 mae gan Weinidogion Cymru bŵer, drwy orchymyn, i ddiwygio, ychwanegu neu hepgor cyrff o'r rhai sydd wedi'u rhestru fel partneriaid cynllunio cymunedol. Dim ond ar ôl ymgynghori â'r corff o dan sylw, ac â chynrychiolwyr i'r awdurdod neu'r awdurdodau lleol a fyddai'n cydweithredu ag ef y caniateir i orchymyn o'r fath gael ei wneud.
75. Ni chaniateir i orchymyn sy'n cael ei wneud o dan yr adran hon ddynodi person nad oes ganddo swyddogaethau o natur gyhoeddus yn bartner cynllunio cymunedol.

### **Adran 39 - llunio strategaeth gymunedol**

76. Pan fydd awdurdod lleol a phartneriaid cynllunio cymunedol wedi dod i gonsensws o ran amcanion y strategaeth gymunedol a chamau i'w cymryd, mae'r adran hon yn pennu bod rhaid i awdurdod lleol gynhyrchu dogfen (a elwir yn strategaeth gymunedol yn y Mesur) sy'n disgrifio'r consensws hwnnw.
77. Rhaid i'r strategaeth gymunedol gynnwys amcanion priodol, a chamau i wireddu'r amcanion hynny.
78. Rhaid i'r strategaeth gymunedol gael ei chynhyrchu a'i chyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r consensws rhwng yr awdurdod lleol a'r partneriaid cynllunio cymunedol gael ei gyrraedd.



74. Under section 38 Welsh Ministers have a power, by order, to amend, to add to or to remove bodies from those listed as community planning partners. Such an order can only be made following consultation with the body concerned, and with representatives of the local authority or authorities which would co-operate with it.
75. An order made under this section cannot designate a person who does not have functions of a public nature as a community planning partners.

### **Section 39 - production of community strategy**

76. Once local authority and community planning partners have reached a consensus as to community strategy objectives and actions, this section specifies that a local authority must produce a document (known as a community strategy in the Measure) capturing that consensus.
77. The community strategy must contain appropriate objectives, and actions for meeting those objectives.
78. The community strategy must be produced and published as soon as reasonably practicable after the consensus between the local authority and the community planning partners has been reached.

### **Section 40 - community strategies: duty to review**

79. Section 40 specifies that a community strategy should be reviewed by the local authority and its community planning partners at least every four years.

### **Section 41 - community strategy reviews**

80. A community strategy should be reviewed to consider the extent to which objectives have been met and, if not met, the progress made towards that.
81. In the light of the review, the local authority and its community planning partners may consider it appropriate to amend the community objectives and the actions or to agree new ones. Once consensus has been reached the local authority should amend the community strategy and republish it as soon as reasonably practicable.

### **Section 42 - community strategies: monitoring**

82. Section 42 requires a local authority and its community planning partners to make arrangements for monitoring progress made on meeting the community strategy objectives and the associated actions.

#### **Adran 40 - strategaethau cymunedol: dyletswydd adolygu**

79. Mae adran 40 yn pennu y dylai strategaeth gymunedol gael ei hadolygu gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid cynllunio cymunedol o leiaf bob pedair blynedd.

#### **Adran 41 - adolygiadau o strategaeth gymunedol**

80. Dylai strategaeth gymunedol gael ei hadolygu er mwyn ystyried i ba raddau y mae'r amcanion wedi'u gwireddu, ac os nad ydynt wedi'u gwireddu pa gynnydd sydd wedi'i wneud tuag at hynny.
81. Yng ngoleuni'r adolygiad hwn, mae'n bosibl y bydd yr awdurdod lleol a'i bartneriaid cynllunio cymunedol o'r farn ei bod yn briodol diwygio'r amcanion cymunedol a'r camau neu gytuno ar rai newydd. Pan fydd consensws wedi'i gyrraedd, dylai'r awdurdod lleol ddiwygio'r strategaeth gymunedol a'i hailgyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

#### **Adran 42 - strategaethau cymunedol: monitro**

82. Mae adran 42 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol a'i bartneriaid cynllunio cymunedol wneud trefniadau ar gyfer monitro'r cynnydd sydd wedi'i wneud ynglŷn â gwireddu amcanion y strategaeth gymunedol a'r camau sy'n gysylltiedig â hynny.
83. Mae adran 42 hefyd yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i gyhoeddi datganiad o leiaf bob dwy flynedd ar y cynnydd sydd wedi'i wneud tuag at fodloni amcanion y strategaeth gymunedol ac ar gymryd y camau sydd wedi'u priodoli i'r amrywiol gyrff cynllunio cymunedol.

#### **Adran 43 - strategaethau cymunedol: gweithredu**

84. Pan fo'r strategaeth gymunedol yn pennu cam i'w gymryd neu swyddogaeth i'w harfer gan yr awdurdod lleol neu ei bartneriaid cynllunio cymunedol, mae'r adran hon yn pennu wedyn fod rhaid iddo wneud popeth sy'n rhesymol er mwyn cymryd y cam neu i arfer y swyddogaeth yn unol â'r strategaeth gymunedol.

#### **Adran 44 - cynllunio cymunedol etc: cyfraniad y gymuned**

85. Mae adran 44 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol a'i bartneriaid cynllunio cymunedol wneud trefniadau i gynnwys y canlynol a chymryd eu barn i ystyriaeth:
- trigolion lleol;
  - rhai nad ydynt yn drigolion lleol ond sy'n cael gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod neu gan un o'i bartneriaid cynllunio cymunedol;
  - cynrychiolwyr cyrff gwirfoddol;
  - cynrychiolwyr buddiannau busnes; ac

83. Section 42 also places a duty on a local authority to publish a statement at least every two years on the progress which has been made towards meeting the community strategy objectives and undertaking the actions attributed to the various community planning bodies.

### **Section 43 - community strategies: implementation**

84. This section specifies that where the community strategy specifies an action to be taken or function to be exercised by the local authority or community planning partners, then it must take all reasonable steps to perform the action or exercise the function in accordance with the community strategy.

### **Section 44 - community planning etc: community involvement**

85. Section 44 requires a local authority and its community planning partners to make arrangements to involve and take account of the views of:
- local residents;
  - non-residents who receive services provided by the authority or one of its community planning partners;
  - representatives of voluntary organisations;
  - representatives of business interests; and
  - anyone else whom the authority considers to have an interest in improving the area's social, economic or environmental well-being
- in connection with community planning, preparation of a community strategy and the review of a community strategy.

### **Section 45 - community planning etc: guidance**

86. Section 45 provides Welsh Ministers with a power to issue guidance on:
- the community planning process;
  - producing and reviewing a community strategy; and
  - the duties in sections 42 to 44.
87. This section also specifies that a local authority and its community planning partners must have regard to any guidance issued under this section.

### **Section 46 - community planning etc: role of Welsh Ministers**

88. Section 46 places a duty on Welsh Ministers to promote and encourage community planning when exercising a function which might affect community planning as far as it is reasonably practicable for them to do so.

### **Section 47 - Part 2: interpretation etc**

89. This section defines a number of terms used in Part 2.

- unrhyw un arall sydd ym marn yr awdurdod yn ymddiddori mewn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol yr ardal mewn cysylltiad â chynllunio cymunedol, paratoi strategaeth gymunedol ac adolygu strategaeth gymunedol.

#### **Adran 45 - cynllunio cymunedol etc: canllawiau**

86. Mae adran 45 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ar y canlynol:
- proses cynllunio cymunedol;
  - cynhyrchu ac adolygu strategaeth gymunedol; a'r
  - dyletswyddau yn adrannau 42 i 44.
87. Mae'r adran hon hefyd yn pennu bod rhaid i awdurdod lleol a'i bartneriaid cynllunio cymunedol roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon.

#### **Adran 46 - cynllunio cymunedol etc: rôl Gweinidogion Cymru**

88. Mae Adran 46 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hybu a hyrwyddo cynllunio cymunedol wrth arfer swyddogaeth a allai effeithio ar gynllunio cymunedol cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol iddynt wneud hynny.

#### **Adran 47 - rhan 2: dehongli**

89. Mae'r adran hon yn diffinio nifer o dermau sy'n cael eu defnyddio yn Rhan 2.

#### **Adran 48 - canllawiau**

Mae nifer o ddarpariaethau yn y Mesur yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau. Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau gwahanol i gyrff gwahanol, gan ganiatáu hyblygrwydd felly. Mae adran 48 hefyd yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, cyn dyroddi canllawiau, ymgynghori â'r awdurdod neu'r partiön o dan sylw neu'r rhai y mae'n ymddangos eu bod yn ei gynrychioli. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r holl ganllawiau o'r fath.

#### **Adran 49 - cyfarwyddiadau**

90. Mae sawl darpariaeth yn y Mesur yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i gorff sydd wedi'i enwi. Mae adran 49 yn caniatáu i Weinidogion Cymru amrywio neu ddirymu unrhyw gyfarwyddyd drwy roi cyfarwyddyd dilynol, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i bob cyfarwyddyd fod yn ysgrifenedig.

#### **Adran 50 - gorchmynion a rheoliadau**

91. Mae'r adran hon yn darparu i orchmynion a rheoliadau o dan y Mesur gael eu gwneud drwy offeryn statudol ac mae'n nodi gweithdrefnau'r Cynulliad mewn perthynas â'r offerynnau hynny.

### **Section 48 - guidance**

90. Numerous provisions in the Measure allow the Welsh Ministers to issue guidance. This section allows the Welsh Ministers to issue different guidance to different bodies, thus allowing flexibility. Section 48 also provides that the Welsh Ministers must, before issuing guidance consult the authority or parties concerned or those who appear to represent them. It also requires the Welsh Ministers to publish all such guidance.

### **Section 49 - directions**

91. Several provisions in the Measure contain a power for the Welsh Ministers to issue directions to a named body. Section 49 allows the Welsh Ministers to vary or revoke any direction by a subsequent direction, and requires all directions to be in writing.

### **Section 50 - orders and regulations**

92. This section provides for orders and regulations under the Measure to be made by statutory instrument and sets out the Assembly procedures in respect of these instruments.

### **Section 51 - consequential etc amendments and transitional and saving provision**

93. The Welsh Ministers are given power by order to amend, repeal or revoke enactments for the purpose of making consequential amendments.
94. Schedule 1 contains consequential amendments relating to Part 1 of the Measure.
95. Schedule 2 contains consequential amendments relating to Part 2 of the Measure. For example, it requires local authorities and National Park authorities to have regard to community strategies published under the Measure (and not, as at present, those published under the Local Government Act 2000) in producing their Local Development Plans.
96. Schedule 3 contains transitional provisions to “preserve” community strategies prepared under the Local Government Act 2000 until local authorities prepare new strategies under the Measure. Local authorities and National Park authorities will have to continue to have regard to their ‘old’ community strategies until a new one is published under the Measure.

### **Section 52 - repeals**

97. Schedule 4 contains repeals including, in particular, of Part 1 of the Local Government Act 1999 insofar as it relates to Welsh improvement authorities.

**Adran 51 - diwygiadau canlyniadol etc a darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed**

92. Mae pŵer yn cael ei roi i Weinidogion Cymru fynd ati, drwy orchymyn, i ddiwygio, diddymu neu ddirymu deddfiadau er mwyn gwneud diwygiadau canlyniadol.
93. Mae Atodlen 1 yn cynnwys diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 1 o'r Mesur.
94. Mae Atodlen 2 yn cynnwys diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 2 o'r Mesur. Er enghraifft, mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol ystyried strategaethau cymunedol a gyhoeddwyd o dan y Mesur (ac nid, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, y rheini a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000) wrth lunio eu Cynlluniau Datblygu Lleol.
95. Mae Atodlen 2A yn cynnwys darpariaethau trosiannol i gadw strategaethau cymunedol a luniwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 hyd nes y bydd awdurdodau lleol wedi llunio strategaethau newydd o dan y Mesur. Bydd yn rhaid i awdurdodau lleol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol barhau i roi ystyriaeth i'w 'hen' strategaethau cymunedol hyd nes y bydd y rhai newydd wedi'u cyhoeddi o dan y Mesur.

**Adran 52 - diddymiadau**

96. Mae Atodlen 3 yn cynnwys diddymiadau gan gynnwys, yn benodol, Ran 1 o Ddeddf Llywodraeth leol 1999 i'r graddau y mae'n ymwneud ag awdurdodau gwella Cymreig.

**Adran 53 - cychwyn**

97. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch cychwyn y Mesur. Yn gyffredinol, bydd darpariaethau'r Mesur yn dod i rym drwy orchymyn a fydd yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru.

**Adran 54 - teitl byr**

98. Mae'r adran hon yn pennu mai 'Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009' yw teitl y Mesur.

### **Section 53 - commencement**

98. This section makes provision about commencement. In general, provisions of the Measure will be brought into force by order made by the Welsh Ministers.

### **Section 54 - short title**

99. This section establishes the Measure's title as the 'Local Government (Wales) Measure 2009'.

## **RECORD OF PROCEEDINGS IN NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

The following table sets out the dates for each stage of the Measure's passage through the National Assembly for Wales.

Introduced	22 September 2008
Stage 1 - Debate	3 February 2009
Stage 2 Scrutiny Committee – consideration of amendments	5 March 2009
Stage 3 Debate	28 April 2009
Stage 4 Debate	28 April 2009
Royal Approval in Council	10 June 2009

## **COFNOD Y TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

Mae'r tabl canlynol yn pennu'r dyddiadau a'r cyfeiriadau ar gyfer pob cam o hynt y Mesur drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cyflwynwyd	22 Medi 2008
Cam 1 - Dadl	3 Chwefror 2009
Cam 2 Pwyllgor Craffu – ystyried y gwelliannau	5 Mawrth 2009
Cam 3 Dadl	28 Ebrill 2009
Cam 4 Dadl	28 Ebrill 2009
Cymeradwyaeth Brenhinol yn y Cyfrin Gyngor	10 Mehefin 2009

---

© Hawlfraint y Goron 2009

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.